



## **Adrodd ar berfformiad ysgolion – Bwletin 5**



© Hawlfraint y Goron Mai 2018  
WG33557

## Cefndir

Drwy'r bwletin hwn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdodau Lleol a Chonsortia am faterion yn ymwneud ag adrodd ar berfformiad ysgolion. Drwy'r sianel hon, byddwn yn parhau i roi gwybod i chi am benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisiau adrodd ar berfformiad ac yn egluro unrhyw faterion cymhleth. Rhannwch y wybodaeth hon gyda'ch ysgolion fel y bo'n berthnasol.

## Cyfraniad y cymhwyster UG fel rhan o fesurau perfformiad

Mae cymwysterau Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru yn cynnwys unedau Uwch Gyfrannol (UG) ac A2. Mae'r cymhwyster UG yn gymhwyster annibynnol ac, fel y nodwyd yn flaenorol ar wefan Cymwysterau Cymru, gall y canlyniadau hefyd gyfrannu 40% tuag at y cymhwyster Safon Uwch llawn. Mae rhagor o wybodaeth am y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig ar gael ar [wefan Cymwysterau Cymru](#).

Nodwyd yn flaenorol y byddai'r newid hwn yn cael ei adlewyrchu mewn gwybodaeth am berfformiad ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn nhermau'r gwerth a gaiff ei roi ar gymwysterau UG at ddibenion mesur perfformiad ysgolion. Fodd bynnag, nodwch nad yw hyn yn cael ei wneud mwyach.

Caiff pwyntiau perfformiad eu priodoli i gymhwyster ar sail ei faint, ei lefel yn y Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r radd a gafwyd. Gan nad yw'r ffactorau hyn wedi newid yn achos cymwysterau UG ac mai dim ond eu cyfraniad at y cymhwyster Safon Uwch llawn sydd wedi newid, at ddibenion mesurau perfformiad bydd cywerthedd o 50% o gymhwyster Safon Uwch yn parhau i gael eu neilltuo i gymwysterau UG. Adlewyrchir hyn yn y wybodaeth am berfformiad a ddelir yng nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru o gymwysterau cymeradwy a dynodedig yng Nghymru.

## Datblygu mesurau perfformiad cyson ar gyfer y sector ôl-16

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer mesur perfformiad yn y chweched dosbarth ac ym maes addysg bellach yn golygu na allwn gymharu canlyniadau mewn ffordd ystyrlon mewn lleoliadau dysgu gwahanol. Mae [rhagor o wybodaeth](#) ar gael am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu mesurau perfformiad cyson ar gyfer y sector ôl-16.

Er mwyn ategu data'r ysgol sydd ar gael yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer ysgolion uwchradd â chweched dosbarth, cafodd tablau data ar gyflawniad yn 2016/17 eu hanfon at ysgolion a cholegau addysg bellach ym mis Chwefror, ac rydym wedi cyhoeddi datganiad ystadegol ar y [Cyrchfannau addysg ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16](#).

## **Mesurau Perfformiad Cyfnod Allweddol 4 – newidiadau yn y dyfodol a threfniadau 2018**

Ar 17 Mai 2018, rhyddhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddatganiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r newidiadau y bwriedir eu gwneud i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn 2019 fel trefn dros dro tra bod y Trefniadau Gwerthuso a Gwella ar gyfer Ysgolion yng Nghymru at y dyfodol yn cael eu datblygu. Rydym yn gweithio ar y trefniadau hirdymor hyn gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Caiff y trefniadau eu cyhoeddi ar y cyd â'r Cwricwlwm i gael adborth arnynt ym mis Ebrill 2019, gyda'r nod o'u gweithredu yn 2022.

### **Mesurau Perfformiad Cyfnod Allweddol 4 'Interim' 2019**

Fel rhan o'n taith tuag at Drefniadau Gwerthuso a Gwella newydd, fe ymrwymon ni, yn *Cenhadaeth ein Cenedl*, i gyflwyno trefniadau gwerthuso interim ar gyfer 2019, er mwyn cefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion a chodi safonau ar gyfer dysgwyr.

Llynedd, cyhoeddom newid i'r ffordd rydym yn delio â'r tueddiad cynyddol i gofrestru disgyblion i wneud arholiadau'n gynnar a beth all gyfrif tuag at fesurau perfformiad pan fo disgybl wedi sefyll arholiad sawl gwaith. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ym Mwletin 4 yn <https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/schooldata/using-school-information-and-reporting-on-performance/?lang=cy>. Mae'r penderfyniad yn parhau mai dim ond canlyniadau'r dyfarniad cyntaf o gymhwyster cyfan fydd yn cyfrif o haf 2019 ymlaen.

Rydyn ni wedi bod yn cydweithio ag ysgolion ar ystod o fesurau perfformiad interim ar gyfer ysgolion uwchradd, sy'n symud y ffocws o'r ffin C/D i gynyddu dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Darperir trosolwg isod.

Mae'r trefniadau lefel-uchel wedi'u cytuno, ond nodwch y byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gefnogi gweithrediad manwl y mesurau dros dro.

Bydd y mesurau newydd hyn, sy'n seiliedig ar sgoriau, yn cael gwared ar y pwyslais ar y mesurau Lefel 2 cynhwysol ar gyfer TGAU a'r ffocws cul ar ddisgyblion sydd ar y ffin rhwng C a D sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r defnydd o fesurau a throthwyon yn y gorffennol.

I'r perwyl hwn, fe symudwn ni at fersiwn mwy diweddar o'r system sgôr pwyntiau wedi'u capio, yr hyn a elwir yn sgôr 'Cap 9'. Bydd hyn yn cynnwys tair cydran benodol wrth graidd y system. Un yr un, yn adrodd ar TGAU, ar gyfer deilliannau disgyblion o ran llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth. Bydd y rhain hefyd yn fesurau perfformiad ar eu pennau eu hunain. Bydd bob un o'r cydrannau hyn yn dal canlyniadau TGAU gorau'r disgybl o'r pynciau a bennwyd.

Bydd y chwe chydian sy'n weddill yn cynnwys canlyniadau gorau disgyblion ar gyfer TGAU, neu- gymwysterau cyfwerth sydd wedi'u cymeradwyo i gael eu darparu yng Nghymru, ac felly bydd dewis lleol yn bosibl.

## Cydrannau penodol

	<b>Mesurau Dysgu (TGAU yn unig)</b>	<b>Math o fesur</b>
Llythrennedd	Y gorau o: 'Saesneg Iaith', 'Cymraeg Iaith Gyntaf', 'Saesneg Llenyddiaeth' neu 'Cymraeg Llenyddiaeth'	Sgôr pwyntiau cyfartalog
Rhifedd	y gorau o: mathemateg neu rifedd	Sgôr pwyntiau cyfartalog
Gwyddoniaeth	y gorau o Wyddoniaeth	Sgôr pwyntiau cyfartalog

Canlyniad hyn fydd sgôr pwyntiau cyfartalog i ysgol ar gyfer bob un o'r tri phwnc. Bydd disgwyl i bob ysgol hunanasesu yn erbyn y sgorau hyn, yn ogystal â'r sgorau cyfartalog ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim, i sicrhau bod pob plentyn y cyfrif a'n bod ni'n deall ac yn gwerthfawrogi cynnydd pob disgybl ar draws y cohort.

Byddwn yn disgwyl gweld bod y chwe chydran arall o'r 'Cap 9' yn adlewyrchu cyd-destun yr ysgol ac ehangder y cwricwlwm a gynigir ac yn rhoi sicrwydd bod pob disgybl yn gallu dilyn cwricwlwm sy'n diwallu eu hanghenion.

Yn ogystal â'r cydrannau ar wahân, bydd hefyd angen i ysgolion hunanasesu yn erbyn y sgôr cyfartalog ar gyfer y 'Cap 9' i gyd, ac eto bydd rhaniad rhwng dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn gymwys. Bydd hyn yn caniatáu dadansoddiad llawer mwy soffistigedig a thrylwyr o gynnydd ysgolion a disgyblion nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Bydd cael Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen a Chenedlaethol yn cael ei gynnwys fel mesur perfformiad penodol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn ymwneud â'r cymhwyster hwn sy'n darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac ar gyfer addysg uwch. Yn ogystal, gall y Dystysgrif Her Sgiliau gyfrif yn y 'Cap 9' ar y cyd ag unrhyw gymwysterau eraill sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi ar gyfer eu cyflawni yng Nghymru. Bydd cymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau yn cyfrif os bydd yn un o chwe chanlyniad gorau disgybl y tu hwnt i'r tair cydran benodol.

Ymhellach at hynny, byddwn yn rhannu gydag ysgolion ystod bellach o wybodaeth a dadansoddiadau i gefnogi proses hunanwerthuso gadarn a thrylwyr. Yn ogystal, bydd angen i ysgolion ystyried defnyddio'r dadansoddiadau canlynol:

- caiff cohort pob ysgol ei rannu'n dair yn seiliedig ar sgoriau disgyblion, gan ddangos y sgôr cyfartalog ar gyfer y rhan uchaf, y rhan ganol, a'r

rhan isaf. Bydd hyn yn sicrhau nad yw ysgolion yn gwella'u sgoriau cyfartalog drwy ffocysu ar un rhan o'r cohort yn unig. Bydd yr un peth yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol, gyda'r cohort yn cael ei rannu'n dri i'w cymharu. Bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu ymhellach bod pob dysgwr yn cyfrif;

- perfformiad ysgolion mewn lleoliadau economaidd tebyg. Drwy wneud hyn, gall ysgolion ddysgu o lwyddiannau ysgolion eraill sy'n wynebu heriau tebyg;
- cyfranogiad, cofrestrïadau a graddau yn Saesneg Iaith, Cymraeg Iaith (Iaith Gyntaf ac Ail Iaith), Mathemateg a Rhifedd, ynghyd â gwyddoniaeth sengl, dwbl a threbl. Ein bwriad yw ein bod yn parhau i ffocysu ar wella deilliannau i bobl ifanc, a hynny yn yr holl feysydd allweddol, a thrwy'r system hunanwerthuso.

Byddwn yn adrodd yn erbyn mesurau perfformiad interim yn cychwyn ym mis Medi 2019.

Rydym yn ystyried ar frys y gofynion gosod targedau'r ysgol, o ystyried y newidiadau yn cael ei gyflwyno, a byddwn yn ymgysylltu â'r sector sut y dylid rheoli'r rhain a byddwn yn cyhoeddi manylion cyn gynted ag y gallwn.

## **Mesurau Perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2018**

Cyn inni allu symud i'r mesurau interim diwygiedig yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2019, mae angen ystyried canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 y flwyddyn gyfredol.

Ar gyfer 2018, fe barhawn i roi'r hyn a gynlluniwyd ar waith o ran adrodd ar gyrhaeddiad o ran Bagloriaeth Cymru (Sylfaenol a Chenedlaethol) yn ogystal â Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (Sylfaenol a Chenedlaethol). Byddwn yn parhau, fel y bwriadwyd, i gyflwyno gofyniad 'TGAU yn unig' o ran dangosyddion gwyddoniaeth a chydannau'r sgôr pwyntiau 'Cap 9'.

Ni fydd newidiadau ychwanegol i'r set gyfredol o fesuriadau perfformiad yn 2018. Golyga hyn y byddwn yn parhau i adrodd ar fesurau trothwy Lefel 2 cynhwysol Lefel 2 a Lefel 1 yn ogystal â'r mesurau Bagloriaeth Cymru newydd, y sgôr pwyntiau 'Cap 9' a dangosyddion eraill yr ydym yn adrodd arnynt.

Yn y cyfamser, parhawn i ymwneud â phenaethiaid ac eraill, gan gynnwys Cadeirydd y Llywodraethwyr a swyddogion awdurdod lleol ac arweinwyr addysg i sicrhau ein bod yn cydweithio'n dda er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau.

## **Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n Ymwneud â Gwybodaeth Aseidiadau Athrawon) (Cymru) 2018**

Yn ddiweddar, rydym wedi ymgynghori ar reoliadau drafft i ddod â chyhoeddi data asesu athrawon a data profion darllen a rhifedd cenedlaethol i ben yn is na'r lefel genedlaethol. Caeodd yr ymgynghoriad ar 30 Ionawr a chyhoeddwyd crynodeb o ymatebion ar 4 Mai. Mae copi o'r ymgynghoriad a chrynodeb o ymatebion ar gael [yma](#).

Rhagwelwn y daw'r rheoliadau diwygio i rym ym mis Awst i'w rhoi ar waith o fis Medi 2018 ymlaen. Yn amodol ar y broses ddeddfwriaethol, bydd hyn yn golygu, o 2018/19 ymlaen, na fydd Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi data asesu athrawon na data profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn is na'r lefel genedlaethol. Mae hyn yn gynnwys y data profion ac asesu. Ni chaiff data asesu athrawon na data profion bellach eu cynnwys yn yr adroddiadau ysgol cymharol, y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan na'r wefan Fy Ysgol Leol. Ar lefel yr ysgol, byddwn parhau yn cyhoeddi y cyd-destun, presenoldeb, data perfformiad cyfnod allweddol 4 a dosbarth 6 drwy'r cyfryngau hyn. Bydd ysgolion yn dal yn ofynnol i asesu disgyblion, cofnodi canlyniadau ac adrodd data aseidiadau athrawon i'r Llywodraeth Cymru.

Bydd ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yn parhau i gael mynediad at eu data eu hunain ar eu systemau eu hunain, ynghyd â data ar lefel genedlaethol at ddibenion hunanwerthuso a chynllunio. Fodd bynnag, bydd cyhoeddiadau data rheolaidd gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol yn fwy syml, gan helpu i symud y ffocws yn ôl i asesu disgyblion.

### **Cohort Cyfnod Allweddol 4 – Disgyblion sy'n mynd yn ôl i flwyddyn 11 eto**

Mae rhai ysgolion wedi gofyn a all disgyblion sy'n mynd yn ôl i flwyddyn 11 eto gael eu heithrio o gohort Cyfnod Allweddol 4 er mwyn sicrhau mai dim ond unwaith y caiff canlyniadau'r disgyblion hyn eu cyfrif. Nodwch nad yw hyn yn bosibl.

Rydym yn adrodd ar berfformiad ysgol ar sail cohort blwyddyn 11 yn hytrach nag ar gyfer disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Mae cohort blwyddyn 11 yn seiliedig ar nifer y disgyblion a oedd ar gofrestr blwyddyn 11 yn yr ysgol ar ddiwrnod cyfrifiad yr ysgol. Pan fydd disgybl yn mynd yn ôl i flwyddyn 11 eto, caiff ei ganlyniadau eu cyfrif mewn blynyddoedd olynol.

### **Cysylltwch â Ni**

Ebostiwch [ims@llyw.cymru](mailto:ims@llyw.cymru) gydag unrhyw gwestiynau am adrodd ar berfformiad ysgol.